

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr, My
Dentist, Prestatyn**

19 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	16
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o My Dentist Prestatyn yn 37 Stryd Fawr, Prestatyn, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 19 Awst 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae My Dentist Prestatyn yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Prestatyn, Sir Ddinbych. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae'r practis yn eiddo i Integrated Dental Holdings Limited (IDH) sydd hefyd yn berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ledled y Deyrnas Unedig.

Mae My Dentist Prestatyn yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol i gleifion preifat a chleifion y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, un hylenydd deintyddol, un therapydd deintyddol, a deg nyrs ddeintyddol (gan gynnwys dwy dan hyfforddiant). Ar adeg yr arolygiad, roedd un o'r deintyddion ar fin gadael y practis, felly ni chafodd ei gynnwys yn rhan o'r arolygiad hwn.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol.

4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae My Dentist Prestatyn yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion yn holiaduron AGIC. Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd gan y practis system addas ar gyfer casglu barn cleifion, ac roedd hyn yn eu galluogi i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddarparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion er mwyn rhoi cymorth iddynt wrth gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd.

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân a thaclus. Gwelsom hefyd fod gan y practis systemau i helpu diogelu cleifion rhag y risg o groes-heintio.

Gwnaethom nodi pryderon ynghylch yr offer radiograffig a'r hyfforddiant yn y practis oherwydd nad oedd y manau a reolir wedi cael eu nodi, nid oedd tystiolaeth bod yr offer radiograffig wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar, ac nid oedd modd inni wybod a oedd un o'r deintyddion wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol mewn ymbelydredd ïoneiddio. O ganlyniad i hyn, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn iddynt roi camau gweithredu brys ar waith i fynd i'r afael â hyn (am fwy o fanylion, gweler Atodiad A).

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion, ond gwelsom fod angen gwneud rhai diweddariadau. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Gwnaethom argymhell y dylai'r weithdrefn gwyno gael ei diweddarau er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Nid oes mynediad addas i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn na chleifion sydd ag anawsterau symudedd. Gwnaethom nodi bod rhwystr posib ar y grisiau a oedd yn arwain at yr allanfa dân, a gwnaethom argymhell y dylai'r practis gael cyngor ynghylch hyn.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion yn holiaduron AGIC. Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd gan y practis system addas ar gyfer casglu barn cleifion, ac roedd hyn yn eu galluogi i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwnaethom argymhell y dylai'r practis ddarparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion er mwyn rhoi cymorth iddynt wrth gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael casglu barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 20 o holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Ar y cyfan, roedd adborth gan y cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn gan y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintyddion. Mae'r practis yn eiddo i Integrated Dental Holdings Limited (IDH), sydd hefyd yn berchen ar nifer fawr o bractisau deintyddol ledled y Deyrnas Unedig.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaethom ganfod bod hanner y cleifion wedi dweud wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol tu allan i oriau, ond dywedodd hanner arall y cleifion nad oeddent yn gwybod. Gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt ar neges peiriant ateb y practis a'i fod wedi'i gynnwys mewn taflenni gwybodaeth i gleifion, ond nid oedd wedi'i arddangos tu allan i'r practis. O ystyried y sylwadau gan y cleifion, cynghorir y practis y dylid sicrhau bod y trefniadau cyswllt mewn argyfwng yn cael eu harddangos mewn lle mwy amlwg.

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, ac roedd hyn yn galluogi i gleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal â mewn argyfwng. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn y dderbynfa, a dywedwyd wrthym eu bod yn aros i fwy o gopiâu, oedd wedi cael eu diweddarau, gael eu dosbarthu.

Gwelsom mai ychydig yn unig o wybodaeth hyrwyddo iechyd a oedd wedi'i harddangos yn y dderbynfa/mannau aros. Gwnaethom gynghori bod y practis yn ystyried darparu mwy o wybodaeth hyrwyddo iechyd, megis gwybodaeth am sut y gallai cleifion wella iechyd eu cegau. Roedd hyn oherwydd y dylai cleifion

gael eu cefnogi i fod yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain o dan y Safonau Iechyd a Gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddarparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.

Dylai'r practis ystyried sut y gallai wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch i ystod ehangach o gleifion. Er enghraifft, gellid defnyddio maint ffont/testun mwy a darparu gwybodaeth mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Gellid asesu'r angen am hyn trwy gael adborth gan y cleifion. Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn nodi ei fod yn rhaid i gleifion dderbyn gwybodaeth lawn am eu gofal sy'n hygyrch iddynt, yn ddealladwy, ac mewn iaith a modd sy'n sensitif i'w hanghenion.

Roedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd drwy ddsbarthu holiaduron iddynt a thrwy gynnal arolygon cleifion ar ffurf negeseuon testun. Dywedwyd wrthym y byddai'r canlyniadau yn cael eu hadolygu gan reolwr y practis ac yn cael sylw fel y bo'n briodol.

Pan wnaethom ofyn am y broses gwyno yn ystod ein holiaduron, dywedodd tua hanner y cleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod gweithdrefn gwyno'n cael ei harddangos ym man aros y cleifion. Fodd bynnag, roedd angen iddi gael ei diweddarau, ac rydym wedi gwneud argymhelliad ynghylch hyn yn adran Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yr adroddiad hwn (tudalen 14). O ystyried sylwadau'r cleifion, dylai'r practis ystyried sut y gellid sicrhau bod yr wybodaeth ynghylch cwynion yn fwy amlwg.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân a thaclus. Gwelsom hefyd fod gan y practis systemau i helpu diogelu cleifion rhag y risg o groes-heintio.

Gwnaethom nodi pryderon ynghylch yr offer radiograffig a'r hyfforddiant yn y practis oherwydd nad oedd y manau a reolir wedi cael eu nodi, nid oedd tystiolaeth bod yr offer radiograffig wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar, ac nid oedd modd inni wybod a oedd un o'r deintyddion wedi cwblhau'r hyfforddiant sy'n ofynnol mewn ymbelydredd ïoneiddio. O ganlyniad i hyn, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn iddynt roi camau gweithredu brys ar waith i fynd i'r afael â hyn (am fwy o fanylion, gweler Atodiad A).

Cyfleusterau Clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol yr wyth ystafell driniaeth yn y practis a gweld eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff. Roedd pob un o'r ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn daclus. Gwnaethom sylwi mewn un ystafell driniaeth bod y sêl wedi torri rhwng y llawr a'r waliau, ac roedd angen ei hail-selio i allu caniatáu glanhau yn effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis roi sylw i'r manau yn un o'r ystafelloedd triniaeth lle mae'r sêl rhwng y llawr a'r wal wedi torri, i allu caniatáu glanhau yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio. Gwnaethom hefyd edrych ar wiriadau a gynhaliwyd ar y peiriant sy'n darparu aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd), a chanfod ei fod wedi cael ei wasanaethu. Fodd bynnag, nid oed unrhyw dystiolaeth fod gwiriadau dyddiol/rheolaidd yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cynnal a chofnodi gwiriadau rheolaidd ar y peiriant cywasgydd (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr).

Dadheintio Offer

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom brosesau addas ar waith i atal cleifion rhag croes-heintio. Gwelsom hefyd fod llyfrau cofnodi wedi'u cwblhau a bod y rhain yn cofnodi'r profion dyddiol a'r gwaith cynnal a chadw ar yr offer glanhau er mwyn sicrhau bod offer yn cael eu glanhau'n effeithiol. Roedd hefyd system addas ar gyfer sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu defnyddio o fewn y cyfnod storio a argymhellir.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau awyru yn yr ystafell ddadheintio, a gwelsom fod y ffaniau echdynnu yn creu llif o aer o ardaloedd budr yr ystafell i'r ardaloedd glân. Fodd bynnag, er mwyn osgoi'r perygl y byddid yn halogi offer glân, mae canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) yn argymhell y dylai aer lifo o'r manau glân i'r manau budr. Gwnaethom gynghori'r practis i ystyried gwella'r trefniadau awyru hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ystyried y broses awyru yn yr ystafell ddadheintio, er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo o'r manau glân i'r manau budr er mwyn osgoi croeshalgi.

Roedd sinciau neilltuedig ar gyfer ymolchi dwylo er mwyn helpu i reoli heintiau, ac roedd yr holl gyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff a oedd yn cyflawni gwaith dadheintio.

Er inni gael sicrwydd bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant digonol yn y maes dadheintio, yn unol â'r hyn a argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05),⁴ nid oedd cofnodion i ddangos bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal yn y practis ar gyfer staff newydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai fod gan yr holl staff sy'n ymwneud â dadheintio offer gofnodion hyfforddiant unigol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ym mis Gorffennaf 2015, ond gwnaethom nodi bod y dull archwilio a ddefnyddiwyd wedi'i gynllunio'n bennaf ar gyfer Lloegr, a gwnaethom gynghori bod y practis yn defnyddio'r

⁴ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

offeryn a ddatblygwyd gan Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig Deoniaeth Cymru, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sy'n benodol i Gymru.

Offer radiograffig (pelydr-X)

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Canfuom y meysydd canlynol a allai beri pryderon diogelwch posibl:

- Ym mhob un o'r wyth ystafell driniaeth, nid oedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw na phrofi diweddar ar yr offer radiograffig er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio
- Ni nodwyd unrhyw fannau o reoli ymbelydredd
- Nid oeddem yn gallu cael gwybod a oedd un o'r deintyddion wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio o fewn y pum mlynedd ddiwethaf, oherwydd nid oedd tystysgrif ar gael.

O ganlyniad i'r uchod, gwnaethom gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis, gan ofyn iddynt roi camau gweithredu brys ar waith i fynd i'r afael â hyn (gellir dod o hyd i fanylion ynghylch hyn yn ogystal ag ymateb y practis yn Atodiad A).

Canfuom hefyd nad oedd archwiliadau sicrhau ansawdd, i helpu i sicrhau ansawdd y delweddau a gymerir, wedi cael eu cynnal yn ddiweddar.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer delweddau pelydr-X yn rheolaidd, er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y delweddau a gymerir.

Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

Meddyginiaeth ac offer meddygol mewn argyfwng

Roedd gan staff fynediad at gyfarpar dadebru a meddyginiaeth pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu) yn y practis. Roedd gan y practis system addas ar gyfer sicrhau bod yr offer dadebru a'r feddyginiaeth a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth bod y staff yn y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a bod swyddog cymorth cyntaf

penodedig. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol, a mynediad at offer a chyffuriau achub bywyd, i'w galluogi i ymateb yn brydlon pe bai un o'r cleifion yn llewygu.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar gyfanswm o 20 cofnod claf ymhlith cleifion y pum deintydd, yr hylenydd a'r therapydd. Ar y cyfan, gwelsom fod safon y gwaith o gadw cofnodion cleifion yn briodol. Gwelsom fod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol ynghylch y risgiau, buddiannau a thriniaethau amgen er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Gwelsom hefyd fod pob claf a oedd angen triniaeth yn derbyn cynllun triniaeth.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol ar gyfer gwella cofnodion cleifion:

- Gwelsom un achos lle nad oedd delweddau pelydr-X a gymerwyd wedi'u graddio o ran ansawdd
- Gwelsom nad oedd dau o'r cleifion wedi cael sganiau pelydr-X pan fyddai'n briodol i wneud hynny

Yr hyn sydd angen ei wella

Gan ystyried y bylchau a welsom yn y sampl y gwnaethom edrych arni, dylid gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion, yn enwedig trwy gofnodi'r canlynol:

- ***Graddio delweddau pelydr-X***
- ***Pa mor aml y caiff pelydrau-X eu cymryd***

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer cofnodi a chynnal gwaith dilynol ar atgyfeiriadau cleifion, a chanfuom nad oedd llyfr cofnodi ar gael i gofnodi'r wybodaeth hon. Gwnaethom argymhell bod y practis yn creu llyfr cofnodion neu system fel y gallai atgyfeiriadau cleifion gael eu dilyn yn hawdd, er mwyn sicrhau nad ydynt wedi mynd ar goll.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion. Yn ystod arsylwadau ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Gwnaethom argymhell y dylai'r weithdrefn gwyno gael ei diweddarau er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG a'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Mae'r practis yn eiddo i ddarparwr corfforaethol o'r enw Grŵp IDH. Ar hyn o bryd, mae pob practis deintyddol IDH yn cael ei ail-frandio o dan yr enw 'My Dentist'. Roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Yn benodol, gwelsom staff y dderbynfa yn helpu i roi tawelwch meddwl i'r cleifion wrth siarad â nhw ynghylch proses eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn eu swyddogaethau ac wrth weithio gyda'i gilydd fel tîm practis.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau, gweithdrefnau, a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith. Roedd polisiau a gweithdrefnau yn cael eu darparu a'u diweddarau'n ganolog gan y sefydliad corfforaethol, ac nid oedd gan y practis cyfrifoldeb unigol ar eu cyfer. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan y polisiau system ddyddio gyson er mwyn dangos mai dyma'r fersiwn ddiweddaraf. Roedd rhai polisiau yn cynnwys dyddiadau adolygu a oedd wedi dod i ben, ac mewn polisiau eraill roedd dyddiadau ar goll. Er enghraifft, roedd y polisi rheoli heintiau yn cynnwys dyddiad fersiwn o Awst 2013 a dyddiad adolygu o Awst 2014, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos ei fod wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar. Gwnaethom hefyd nodi bod y polisi rheoli heintiau yn cyfeirio at ganllawiau a oedd yn berthnasol i Loegr, yn hytrach na'r canllawiau a geir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 sy'n benodol i Gymru. Dywedwyd wrthym fod y cwmni yng nghanol y broses o adolygu eu holl bolisiau ac y byddai hyn yn cael sylw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai fod system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyfredol (hynny yw, yn defnyddio system ddyddio gyson) a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn y polisïau ar ddiogelu preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion, a chanfod nad oeddent yn cynnwys manylion ynghylch sut y byddid yn diogelu urddas cleifion. Gwnaethom hefyd edrych ar asesiadau risg iechyd a diogelwch a gwblhawyd yn y practis a chanfod nad oedd y rhain wedi cael eu hadolygu am nifer o flynyddoedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid manylu ar y trefniadau ar gyfer diogelu urddas cleifion mewn polisi.

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr asesiadau risg iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion yn y practis.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn y practis bob mis a bod cyfarfodydd diweddarau cryno yn cael eu cynnal bob wythnos. Gwelsom nodiadau cyfarfod o fis Mai hyd at Fehefin 2015, a oedd yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch y trafodaethau. Dywedwyd wrthym fod staff yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod newydd o staff yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu orfodol fel rhan o bolisi'r cwmni a bod staff yn cael arfarniadau interim bob chwe mis ac arfarniadau blynyddol a gynhelir gan reolwr y practis. Dywedwyd wrthym hefyd bod deintyddion yn cael arfarniadau a gynhelir gan ymgynghorydd clinigol yr ardal.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau yn cael eu cynnal yn y practis a bod deintyddion yn cynnal trafodaethau rheolaidd â'i gilydd ynghylch materion/pynciau clinigol er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau eu bod yn darparu cofnodion mwy clir ynghylch yr archwiliadau a'r canlyniadau (gan gynnwys yr hyn a ddysgwyd ac unrhyw newidiadau a oedd eu hangen ar y practis).

Gwelsom enghreifftiau o hyfforddiant (a elwir hefyd yn ddatblygiad proffesiynol parhaus) a gwblhawyd gan staff yn y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael mynediad at addysg a chyfleoedd hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Gwelsom fod staff wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar mewn diogelu plant ac oedolion.

Gwelsom fod angen i ddeintyddion a oedd wedi'u cofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat ddiweddarau eu tystysgrifau fel eu bod yn cynnwys enw newydd y practis. Gwnaed trefniadau ynghylch hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn â'r practis, a wnaeth gytuno i sicrhau bod yr holl staff deintyddol yn diweddarau eu gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol. Er nad yw hyn yn orfodol i staff y practis (ac eithrio deintyddion), dywedwyd wrthym fod pob aelod newydd o staff yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn unol â pholisi'r cwmni.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol trwy'r bwrdd iechyd. Gwelsom gofnodion i ddangos bod yr holl staff clinigol wedi cael brechiadau priodol i'w gwarchod rhag firsau a gludir yn y gwaed.

Gwnaethom edrych ar sut yr ymdriniwyd â chwynion wrth gleifion yn y practis, a gwnaethom ganfod bod trefniadau addas ar gyfer cofnodi ac ymateb i bryderon. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth am gwynion yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn ffeil bapur, a dywedwyd wrthym ei bod hefyd yn cael ei chofnodi ar system gyfrifiadureg yn unol â pholisi'r cwmni. Gwnaethom gynghori'r practis i ddefnyddio dalen grynhoi ar gyfer cofnodion cwynion ar bapur, fel bod statws a manylion cwynion yn gallu cael eu hadolygu'n hawdd. Dywedwyd wrthym fod cwynion ar lafar a chwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi'n briodol.

Gwelsom fod y broses gwyno yn cydymffurfio ar y cyfan â'r trefniadau yn y weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG a adwaenir fel 'Gweithio i Wella'. Fodd bynnag, nid oedd yr amserlen ar gyfer ymateb i gwynion yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat (dylai fod yn 10 diwrnod yn hytrach na 30 diwrnod). Roedd manylion cyswllt AGIC a'r bwrdd iechyd lleol – sef y sefydliadau y gallai cleifion gysylltu â nhw pe bai ganddynt gŵyn – hefyd ar goll o ddogfen y polisi gwyno, ac felly hefyd manylion y cyngor iechyd cymuned, sy'n gallu darparu cymorth eiriolaeth i gleifion. Gwnaethom sylwi bod y poster cwynion, a oedd wedi'i arddangos yn y man aros, yn nodi bod manylion y cyngor iechyd cymuned a'r bwrdd iechyd ar gael yn y dderbynfa, ond gwelsom nad oedd yr wybodaeth hon ar gael. Roedd y poster hefyd yn cynnwys cyfeiriad camarweiniol at 'reoliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus', a gwnaethom argymhell y dylid naill ai egluro hyn neu ei ddileu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi/gweithdrefn gwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:

- ***Mae amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat***

- ***Dylid cynnwys manylion cyswllt AGIC, y bwrdd iechyd lleol, a'r cyngor iechyd cymuned***
- ***Dylid dileu cyfeiriadau camarweiniol at 'reoliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus' oddi ar y poster cwynion***

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y gwelir tystiolaeth o welliant amlwg yn y maes hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion dderbyn triniaeth ynddo. Nid oes mynediad addas i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn na chleifion sydd ag anawsterau symudedd. Gwnaethom nodi bod rhwystr posib ar y grisiau a oedd yn arwain at yr allanfa dân, a gwnaethom argymhell y dylai'r practis gael cyngor ynghylch hyn.

Mae'r practis wedi'i leoli ar y llawr cyntaf mewn adeilad yng nghanol tref Prestatyn. Nid oes gan y practis faes parcio neilltuedig ar gyfer cleifion, ond mae parcio cyhoeddus yn agos at y practis.

Nid oes mynediad addas i'r practis ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn na chleifion sydd ag anawsterau symudedd, gan nad oes mynediad i'r practis ond trwy ddringo rhes o risiau ac nad oes lifft ar gael. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei egluro i gleifion newydd ac y gellid trefnu iddynt gael eu gweld mewn practis gwahanol gerllaw.

Roedd taith o amgylch yr adeilad yn cadarnhau bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, yn fewnol ac yn allanol. Roedd y practis i'w weld yn lân, yn daclus, ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddi draw. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod y practis yn anghyfforddus o gynnes ar adegau a bod prinder awyru yn yr adeilad, a gwnaethom gynghori'r practis i ystyried a ellir gwella hyn er mwyn darparu amgylchedd mwy cyfforddus i gleifion a staff. Roedd y manau aros a'r dderbynfa o faint addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd gan y practis ddau doiled i'r cleifion a dau doiled i'r staff. Roedd pob tŷ bach i'w weld yn lân, ac roedd cyfleusterau ymolchi dwylo addas ar gael er mwyn rheoli heintiau. Roedd cyfleusterau ar gael i'r staff newid dillad a pharatoi lluniaeth.

Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, ond fe fyddai angen diweddar hwn drwy waredu ar enw'r deintydd a oedd yn gadael. Roedd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat wedi'u harddangos yn y dderbynfa/manau aros.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n briodol. Gwnaethom sylwi bod un o'r allanfeydd tân wedi'i harwyddo i lawr rhes o risiau ger y man aros. Fodd bynnag, roedd clwyd hanner uchder ar y grisiau a oedd wedi'i chloi gyda chlicied. Er y gallai hon atal plant ifanc rhag syrthio i lawr y grisiau, roeddem yn bryderus ei bod hefyd yn rhwystro pobl rhag cyrraedd yr allanfa dân.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis geisio canllawiau gan arbenigwr diogelwch tân ynghylch y posibilrwydd bod y clwyd hanner uchder yn achosi rhwystr rhag cyrraedd yr allanfa dân.

Roedd cofnodion a gwybodaeth am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, ac roedd cofnodion electronig yn cael eu hategu bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd mesurau i sicrhau diogelwch y cleifion a'u gwybodaeth.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn My Dentist Prestatyn yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: My Dentist Prestatyn

Dyddiad yr arolygiad: 19 Awst 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>GWELLIANNAU SICRWYDD AR UNWAITH</p> <p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom nad oedd y mannau a reolir wedi'u dynodi (yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999) ar gyfer ymbelydredd yn unrhyw un o'r wyth ystafell driniaeth. Yn benodol, nid oedd hyn wedi'i nodi yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a'r rheolau lleol ar gyfer offer radiograffig.</p> <p><u>Gofyniad sicrwydd ar unwaith</u></p> <p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ei ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd a'r rheolau lleol yn dynodi'r mannau a reolir ym mhob ystafell driniaeth lle defnyddir offer radiograffig.</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.1: Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14(2)			
	<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ar ddiwrnod yr arolygiad, ni chawsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod yr offer radiograffig yn yr wyth ystafell driniaeth wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar.</p> <p><u>Gofyniad sicrwydd ar unwaith</u></p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl gyfarpar radiograffig yn y practis yn cael ei wasanaethu er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio a bod dystiolaeth ysgrifenedig ar gael er mwyn i AGIC ei harchwilio.</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14(3)(b)</p>			
	<p><u>Canfyddiad</u></p> <p>Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod un o'r deintyddion wedi cwblhau hyfforddiant digonol mewn ymbelydredd ïoneiddio o fewn y pum mlynedd diwethaf oherwydd nad oedd tystysgrif ar gael.</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p><u>Gofyniad sicrwydd ar unwaith</u></p> <p>Rhaid i'r staff perthnasol gwblhau hyfforddiant digonol mewn ymbelydredd ïoneiddio, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.</p> <p>Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.9; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2008), Rheoliad 14(2); Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, Rheoliad 11</p>				
Profiad y Claf				
7	<p>Dylai'r practis ddarparu rhagor o wybodaeth hyrwyddo iechyd i gleifion.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 1.1]</p>			
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
8	<p>Dylai'r practis roi sylw i'r manau yn un o'r ystafelloedd triniaeth lle mae'r sêl rhwng y llawr a'r wal wedi torri, i allu caniatáu glanhau yn effeithiol.</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	[WHTM 01-05, adrannau 6.46–6.50]			
8	Dylid cynnal a chofnodi gwiriadau rheolaidd ar y peiriant cywasgydd (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr). [Safonau Iechyd a Gofal 2.9]			
9	Dylai'r practis ystyried y broses awyru yn yr ystafell ddadheintio, er mwyn sicrhau bod yr aer yn llifo o'r manau glân i'r manau budr er mwyn osgoi croeshalgi. [WHTM 01-05, Adran 6.40–6.45]			
9	Dylai fod gan yr holl staff sy'n ymwneud â dadheintio offer gofnodion hyfforddiant unigol. [WHTM 01-05, Adran 1.26–2.40]			
10	Dylid cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer delweddau pelydr-X yn rheolaidd, er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y delweddau a gymerir. [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddiad Meddygol) 2000]			
11	Gan ystyried y bylchau a welsom yn y sampl y gwnaethom edrych arni, dylid gwneud gwelliannau i gofnodion cleifion, yn enwedig			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>trwy gofnodi'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Graddio delweddu pelydr-X • Pa mor aml y caiff pelydrau-X eu cymryd <p>[Safonau Iechyd a Gofal 3.5; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4]</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
12	<p>Dylai fod system gadarn ar gyfer sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyfredol (hynny yw, yn defnyddio system ddyddio gyson) a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.</p> <p>[Safonau Iechyd a Gofal 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6]</p>			
13	<p>Dylai'r trefniadau ar gyfer diogelu urddas cleifion gael eu cynnwys ym mholisiau'r practis.</p> <p>Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr asesiadau risg iechyd a diogelwch yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion yn y practis.</p>			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	[Safonau Iechyd a Gofal 2.1 a 7.1; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6]			
14	<p>Dylai'r practis ddiweddarau'r polisi/gweithdrefn gwyno er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae amserlenni ar gyfer ymateb i gwynion yn cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat • Dylid cynnwys manylion cyswllt AGIC, y bwrdd iechyd lleol, a'r cyngor iechyd cymuned • Dylid dileu cyfeiriadau camarweiniol at 'reoliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus' oddi ar y poster cwynion <p>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Diwygio) 2011, Adran 15(4a); Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.3]</p>			
Ansawdd yr Amgylchedd				
16	Rhaid i'r practis geisio canllawiau gan			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	arbenigwr diogelwch tân ynghylch y posibilrwydd bod y clwyd hanner uchder yn achosi rhwystr rhag cyrraedd yr allanfa dân. [Safonau Iechyd a Gofal 2.1]			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: